# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Tynnu 1 (rhifau hyd at 20)** |
| Adnoddau: | • Numicon.<br>• Cownteri/blociau.<br>• Peli a hwpiau/bwcedi.<br>• Llinynnau a gleiniau.<br>• Cardiau fflach ‘symiau’ tynnu 1 oddi wrth bob rhif o 0 i 20 – *gweler y ddogfen ‘Tynnu 1 – cardiau fflach’.*<br>• 20 o hwpiau/smotiau bach ar lawr.<br><br>**<u>Adnoddau digidol:</u>**<br>• Cyflwyniad yn dangos sut i dynnu un – gweler y ddogfen *‘Tynnu 1 – cyflwyniad’.*<br>• Llinell rif ddigidol: https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/ |
| Camau: | **<u>Cam 1: Cyflwyniad</u>**<br>Dilyn llinell rif weledol o 0 hyd at 20.<br>Rhifo ar y cyd yn uchel hyd at 20 ac yn ôl (mae’n bwysig ymarfer rhifo am nôl).<br>Tynnu sylw at rifau ar hap – pwyntio atynt, a gofyn i ddysgwyr ‘Pa rif yw hwn?’<br>NEU ddweud enw rhif a gofyn i ddysgwr ddod allan i bwyntio ato.<br>Chwilio am numicon sy’n creu’r rhif hwnnw, e.e. 18 yw numicon 10 + numicon 8.<br><br>**<u>Cam 2: Tynnu 1</u>**<br>Cynhesu drwy adolygu tynnu 1 gyda rhifau hyd at 10:<br>• Edrych ar y cyflwyniad digidol a thrafod.<br>• Gwneud pob un o’r gweithgareddau uchod (Cam 1) eto, ond y tro hwn, tynnu un o bob rhif.<br>• Dechrau gwneud yr uchod gyda rhifau hyd at 20.<br><br>**<u>Cam 3: Gweithgareddau</u>**<br>Gweithio gyda’r dysgwyr mewn grwpiau.<br>Rhoi cownteri/blociau/numicon iddynt. Gofyn iddynt nodi’r rhif, yna tynnu un oddi wrtho. Cyfrif eto er mwyn darganfod yr ateb.<br>Dweud y cyfrifiad allan yn uchel, e.e. ‘Un deg tri tynnu un yn hafal i un deg dau’. |



# 19 - 1 =

| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 4: Gleiniau</u>**<br>Rhoi rhif rhwng 10 a 20 i bob dysgwr. Gofyn iddynt osod y nifer hwnnw o leiniau ar y llinyn. Yna gofyn iddynt dynnu un i ffwrdd – faint sydd yno nawr? Ar ôl gorffen, gellid ysgrifennu pob cyfrifiad ar fwrdd bach gwyn, e.e 14 – 1 = 13 ayyb.<br><br>**<u>Cam 5: Ardal allanol</u>**<br>Gosod 'symiau' ar gardiau ar lawr - *gweler y ddogfen 'Tynnu 1 – cardiau fflach'.* Gosod rhifau o 0 i 20 ar y llawr ar ffurf llinell rif. Rhoi un cyfrifiad i bob dysgwr. Gofyn iddynt ddangos y cyfrifiad ar ffurf neidio/camau, e.e. 12 – 1 = 11 yw:<br>• Neidio ymlaen i 12, yna nôl 1, ac rwyf yn glanio ar 11.<br><br>**<u>Cam 6: Peli/Bagiau ffa</u>**<br>Peli/Bagiau ffa a bwced – rhoi niferoedd o beli/bagiau ffa hyd at 20 mewn amrywiol fwcedi. Gofyn i'r dysgwyr dynnu un allan. Yna gofyn iddynt gofnodi - Sawl un sydd yna nawr? |
| Cwestiynu: | • Faint yw _____ tynnu 1?<br>• Wyt ti'n gallu dangos 13 tynnu 1 i fi gyda'r gleiniau?<br>• Sawl pêl sydd yma nawr? |
| Beth nesaf? | Tynnu 1 oddi wrth rifau hyd at 20<br>Tynnu 2 oddi wrth rifau hyd at 5. |

